**LC1195**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**The Avian Influenza (Preventive Measures) (Wales) (No.2) Regulations 2005**

Diben y Rheoliadau hyn yw rhoi effaith i Benderfyniad y Comisiwn 2005/734/EC (fel y'u diwygiwyd), sy'n pennu mesurau bioddiogelwch i leihau'r risg y bydd ffliw adar pathogenig iawn sy'n cael ei achosi gan feirws ffliw A is-deip H5N1 yn cael ei drosglwyddo o adar sy'n byw yn y gwyllt i ddofednod ac adar eraill mewn caethiwed ac yn darparu ar gyfer system canfod cynnar mewn ardaloedd sydd mewn perygl penodol. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ail-lunio The Avian Influenza (Preventive Measures) (Wales) Regulations 2005, gan wneud nifer fach o fân newidiadau. Gwnaed y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn weithredol ar 8 Rhagfyr 2005, a daethant i rym y diwrnod canlynol.

**Rheol Sefydlog 11.7**
Nodwyd y pwynt canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7

Gwnaed y Rheoliadau hyn yn Saesneg yn unig. Bu'n rhaid gwneud y Rheoliadau ar frys ac felly daeth y Gweinidog i'r casgliad nad oedd yn rhesymol ymarferol eu gwneud yn ddwyieithog. [Rheol Sefydlog 11.7(viii)]

**Glyn Davies AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**17 Ionawr 2006**